

ATODIAD 2b - BIDIAU CYFALAF

BIDIAU CYFALAF 2023/24 - I'W ARIANNU O'R GYLLIDEB O FEWN Y CYNLLUN RHEOLI ASEDAU

	Teitl y Bid	Manylion y Bid	Swm a argymhellir (£)
ADDYSG			
Cyf 1	Bid System Rheoli Gwybodaeth Addysg	Bid ar gyfer cyflwyno System Rheoli Gwybodaeth Addysg newydd (cwmni Access UK).	100,000
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT			
Cyf 2	Uwchraddio system CACI	Caiff y system CACI ei ddefnyddio i reoli gwaith y gwasanaeth Gofal Cartref Mewnol y Cyngor. Mae'r gweithwyr Gofal Cartref yn defnyddio'r system er mwyn adnabod eu tasgau, cofnodi gwaith, cofnodi'r gofal a ddarparwyd a.y.y.b. Mae gweinyddwr y system CACI yn defnyddio "Windows Servers 2012", mae cefnogaeth y fersiwn yma yn dod i ben yn ystod 2023. Felly, bydd angen uwchraddio'r gweinyddwr. Sydd hefyd yn golygu'r angen i uwchraddio'r system CACI gan nad yw'r fersiwn bresennol yn cael ei gefnogi ar "Windows Server 2019".	37,000
AMGYLCHEDD			
Cyf 3	Meddalwedd Pontydd Pwysu newydd	Mae'r system meddalwedd pontydd pwysu presennol sydd ar waith yn safleoedd Gwasanaeth Trin Gwastraff Ffridd Rasmus, Harlech, Caergyfchu, Caernarfon a Choed Ffridd Arw Dolgellau wedi bod yn weithredol ers tua 15 mlynedd ac erbyn hyn nid yw'n cael ei gefnogi'n llawn gan berchnogion/awduron y meddalwedd, Precia Molen. Ni fydd unrhyw newidiadau 'isadeiledd' gofynnol yn y dyfodol neu atgyweiriadau sydd eu hangen i god y system feddalwedd yn bosib. Felly mae'n risg i'r Gwasanaeth. Gan y byddai anallu'r system i weithredu'n iawn yn peryglu gallu'r Gwasanaeth i gofnodi symudiadau gwastraff yn ddigonol i adrodd yn gywir i Cyfoeth Naturiol Cymru; drwy adroddiadau gwastraff chwarterol, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, ac yn unol ag amodau'r trwyddedau amgylcheddol y safleoedd.	25,000
ECONOMI A CHYMUNED			
Cyf 4	Cronfa Cefnogi Cymunedau (Cist Gwynedd)	Dros y blynyddoedd, mae'r Cyngor drwy'r Gronfa Cefnogi Cymunedau wedi cefnogi sawl cymuned ar draws y sir i ddatblygu cynlluniau sydd wedi ymateb i effeithiau'r cynlluniau arbedion a'r cynllun strategol. Mae cymunedau yn parhau i wynebu heriau wrth adfer yn sgil Covid, yn ogystal ag wynebu heriau newydd drwy geisio ymateb i'r argyfwng tloidi presennol. Bydd y gronfa yma, yn ein galluogi i gynnal ac adeiladu ar y gwydnwch cymunedol sydd wedi amlygu ei hun yn y sir yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r galw gan ein cymunedau am gefnogaeth drwy gronfa Cefnogi Cymunedau (cyfalaf) i ymateb i anghenion yn lleol yn uchel gyda'r arian ar gyfer 2022/23 i gyd wedi ei glustnodi yn y rownd gyntaf.	50,000
YMGYNGHORIAETH GWYNEDD			
Cyf 5	Cynllun Gerddi'r Traphont, Abermaw	Mae ardal Gerddi'r Traphont, Abermaw yn dioddef o effeithiau llifogydd yn sgil dŵr wyneb ag o'r môr. Mae wal yr harbwr yn yr ardal yma hefyd mewn cyflwr anaddas, amlygwyd hyn wrth i ran o'r wal syrthio yn 2019, gyda gwaith atgyweirio brys angen ei gynnal. Mae Achos Busnes Amlinellol y cynllun Gerddi'r Traphont bellach wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac wedi symud ymlaen i'r cam Achos Busnes Llawn. Mae amcan bris y gwaith adeiladu yn £4m, bydd y ffigwr terfynol yn cael ei gadarnhau drwy broses dendro. Mae cyfraniad o £312k eisoes wedi ei gymeradwyo drwy'r Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor, gwneir cais am £288k ychwanegol, ac felly cyfanswm arian cyfatebol y Cyngor yn £600k, sef 15% o'r £4m. Gyda Llywodraeth Cymru yn ariannu'r gweddill. Erbyn hyn mae'r Adran wedi lleihau y cais o £288k i £173k, gan hunan gyllido'r £115k.	173,000
CYFANSWM BIDIAU CYFALAF			385,000